

**Cyfeirnod:** IR806

**Dyddiad cyhoeddi:** 19 Ionawr 2022.

## Teledu Cylch Cyfyng

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 21 Rhagfyr 2021 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth ynghylch cynnal a chadw a chefnogaeth Teledu Cylch Cyfyng (CCTV).

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

### **1. Cyflenwr y contract ar gyfer cynnal a chadw a chefnogi teledu cylch cyfyng**

Securitas.

### **2. Faint mae'r Sefydliad yn ei wario yn flynyddol gyda'r cyflenwr? (os lluosog, rhestrwch y gwariant blynyddol ar gyfer pob un)**

£3,392.50 y flwyddyn i roi sylw i systemau tân a diogelwch gyda'r cyflenwr.

### **3. Beth yw dyddiad dod i ben y cytundeb hwn?**

Dyddiad gorffen y cytundeb yw 04/06/2023.

### **4. Beth yw hyd y cytundeb?**

Hyd y cytundeb yn 19 mis.

### **5. Beth yw dyddiad adolygu'r contract hwn? Os yn bosib canlyniad tebygol yr adolygiad hwn**

Mae'r contract yn cael ei reoli'n rhagweithiol a'i adolygu ar sail barhaus i sicrhau darpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel.

**6. Prif frand yr offer teledu cylch cyfyng. Does dim angen y model dim ond y brand arna i. Os oes amryw o frandiau allech chi eu rhestru?**

HIKVISION.

**7. Beth yw cyfanswm y camerâu sy'n cael eu defnyddio/o dan y contract hwn?**

Cyfanswm y camerâu yn 10.

**8. Disgrifiad o'r gwasanaethau a ddarperir o dan y contract hwn. Nodwch os yw'r contract hwn yn cynnwys mwy na gwasanaethau teledu cylch cyfyng yn unig.**

Gweler ymateb i C2 uchod. Mae'r gwasanaethau a ddarperir o dan y contract hwn yn un ymweliad cynnal a chadw safonol y flwyddyn. Bydd unrhyw alwadau, rhannau neu lafur ychwanegol yn cael eu codi am gost ychwanegol.

**9. Manylion cyswllt y gweithiwr sy'n gyfrifol am y contract rhwng y cyflenwr a'r sefydliad. A allwch chi roi eu manylion cyswllt llawn i mi**

Pennaeth Gwasanaethau Busnes (eitem 16)

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

<mailto:Gwasanaethau.Busnes@archwilio.cymru>

Y cwestiynau a restrir dan y pennawd '**Os nad oes contract cynnal a chadw CCTV yn ei le**' a

**'Os nad oes contract cynnal a chadw neu gynnal a chadw mewnol yn ei le, a oes cytundeb ad-hoc?'** ddim yn berthnasol, ac felly nid ydynt wedi cael eu hateb.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,